YR ATODLEN

Cyfansoddiad

# RHAN 3

## Is-bwyllgorau

**Is-bwyllgorau**

**15.**—(1) Caiff CBC y Gogledd —

(a) sefydlu is-bwyllgorau;

(b) penodi'r canlynol yn aelodau o is-bwyllgor—

(i) aelodau o CBC y Gogledd;

(ii) cyfranogwyr cyfetholedig (gweler rheoliad 9).

(2) Ni chaiff is-bwyllgor ond arfer y swyddogaethau hynny a ddirprwyir iddo gan CBC y Gogledd (ond gweler rheoliad 15 a pharagraff 16).

(3) Rhaid nodi gweithdrefnau is-bwyllgor, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau pleidleisio pan fo hynny'n briodol, yn y rheolau sefydlog.

**Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

**16.**—(1) Rhaid i CBC y Gogledd sefydlu is-bwyllgor (o'r enw yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio) i—

(a) adolygu materion ariannol CBC y Gogledd a chraffu arnynt;

(b) llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion mewn perthynas â materion ariannol CBC y Gogledd;

(c) adolygu ac asesu trefniadau CBC y Gogledd ar gyfer rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol;

(d) llunio adroddiadau a chyflwyno argymhellion i CBC y Gogledd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;

(e) goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol CBC y Gogledd;

(f) adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a lunnir gan CBC y Gogledd;

(g) arfer unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan CBC y Gogledd.

(2) Pan fydd yn penodi aelodau o'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio, rhaid i CBC y Gogledd sicrhau—

(a) bod o leiaf un aelod o'r is-bwyllgor yn berson nad yw'n aelod o gyngor sir, nac o gyngor bwrdeistref sirol, yng Nghymru,

(b) y cyfansoddir o leiaf ddau draean o'r aelodaeth gan aelodau o'r cynghorau cyfansoddol (ond nid aelodau o weithrediaethau'r cynghorau cyfansoddol), ac

(c) nad yw unrhyw un o aelodau o'r is-bwyllgor—

(i) yn aelod cyngor,

(ii) yn gyfranogwr cyfetholedig, nac

(iii) yn aelod o weithrediaethau'r cynghorau cyfansoddol.

(3) Yn is-baragraff (2), ystyr "cyfranogwr cyfetholedig" yw person a gyfetholir—

(a) yn aelod o is-bwyllgor ac eithrio'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio, neu

(b) i gyfranogi yng ngweithgareddau CBC y Gogledd ac eithrio gweithgareddau'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio.

(4) Ni chaiff yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio arfer ei swyddogaethau os yw aelodaeth yr is-bwyllgor yn torri gofynion is-baragraff (2).

(5) Rhaid i'r rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth sy'n rheoleiddio dull yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio o arfer ei swyddogaethau.